Rheolaeth

MEDDYLIWCH AMDANI

Hydref 2005

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud @crc-wmc.org.uk

Pa fath o Fodel Rôl ?

Yn ôl arolwg newydd yng nghylchgrawn Human Resources a'r arbenigwyr gweithio hyblyg Flexecutive, dim ond 31% o'r sampl oedd yn cytuno bod eu huwch-reolwyr yn fodel rôl da o ran cydbwysedd bywyd a gwaith.

Fel rheolwyr, pa agwedd tuag at gydbwysedd bywyd a gwaith mae eich patrwm gweithgareddau chi yn ei hawgrymu i'ch staff? Ydych chi'n credu eich bod yn annog eich staff trwy weithio oriau hir ac aberthu bywyd teuluol, ynteu a yw'n bosibl eich bod yn peri iddyn nhw anobeithio?

Adnabod y Rhai sy'n Dychwelyd

Yn ddiweddar, dywedodd Jean-Pierre Garnier, prif weithredwr y cwmni nwyddau fferyllol anferth Glaxo-SmithKline nad y bobl sydd wedi mwynhau llwyddiant di-dor sy'n gwneud yr arweinwyr gorau.

Wrth ddewis arweinwyr eich timau, a fyddwch chi'n barnu pobl yn ôl yr hyn maen nhw wedi'i gyflawni yn unig, ynteu a fyddwch chi'n gwneud ymdrech i ddadansoddi sut y gwnaeth yr unigolion hynny ymateb pan wnaethon nhw fethu â chyflawni'u nod? Oni allai natur yr ymateb hwnnw ddatgelu mwy o wybodaeth ichi am eu potensial fel arweinwyr na'u llwyddiannau penodol?

Gwrando ar yr Arbenigwyr yn unig?

Gwnaeth g r doeth anhysbys y sylw un tro mai amaturiaid oedd wedi adeiladu'r Arch, ond mai pobl broffesiynol oedd wedi adeiladu'r Titanic.

Er y dylem oll ymdrechu i fod yn broffesiynol yn ein materion busnes, a yw hynny'n golygu mai saîbwyntiau'r aelodau hynny o'ch tîm sydd â'r cymwysterau ffurfiol yw'r rhai cywir bob tro? A fyddwch chi'n gwrando ar farn pobl eraill, nad oes ganddyn nhw hyfforddiant ffurfiol yn y maes dan sylw, ond a allai o bosibl gynnig cyngor a mewnwelediad gwerthfawr?

Goruchwyliaeth – Cudd ynteu Amlwg?

Yn ôl yr American Management Association, bydd tri chwarter o gwmnïau mawr yn monitro e-bost eu gweithwyr, a mwy na'u hanner yn cadw ac yn adolygu ffeiliau cyfrifiadurol eu staff.

Beth yw'ch barn ynghylch cadw golwg ar eich staff fel hyn? Os ydych chi yn monitro negeseuon y staff, ydy hi'n well bod yn ochelgar er mwyn dal pobl sy'n camddefnyddio'r system, neu roi rhybudd amlwg yn y gobaith o atal arferion o'r fath yn y lle cyntaf?

Cardiau Cyflwyno

Wrth inni ddechrau ar dymor y cynadleddau, y ciniawau blynyddol a'r partïon llon, gallwn oll ddisgwyl i sawl cerdyn busnes newid dwylo, gan ychwanegu, gobeithio, at ein llyfrau cysylltiadau.

A fyddwch chi'n sicrhau bod y cyfarfyddiadau ysbeidiol ac anffurfiol mewn achlysuron rhwydweithio yn cael eu trosi yn gysylltiadau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol? A fyddwch chi'n dilyn trywydd y cyfarfyddiad yn systematig, ynteu a gredwch bod eich personoliaeth a'ch dull o gynnig nwyddau yn ddigon cofiadwy iddyn nhw eich ystyried chi y tro nesaf y byddan nhw'n chwilio am gyflenwr?

Gwefannau Rheolaeth

Mae'n bosibl y byddwch chi'n synnu o ddarllen bod chwiliad dan Google am "leadership" yn cynhyrchu dros 500,000,000 o ganlyniadau; "management" yn cynhyrchu 1,880,000,000; "leader" yn cynhyrchu 350,000,000 a "manager" dros 500,000,000. O gyfyngu'r chwiliad i gynnwys y gair "Wales" fe welwch ei bod yn ymddangos bod y niferoedd yn fwy hydrin – er eu bod yn dal i gynnwys oddeutu 5,000,000 am "leadership" + "Wales" a 21,000,000 am "management" + "Wales". Felly dylai fod yna rywbeth yno i'ch diddori!

Cyngor Rheolaeth Cymru
Wales Management Council

Tywys Cymru Tuag At Ragoriaeth ym maes Rheolaeth